Y diweddaraf am y Coleg Ffederal

Mis Hydref 2010

Yn y bwletin cyntaf am y Coleg Ffederal rhoddwyd gwybodaeth am sefydlu'r Bwrdd Gweithredu Coleg Ffederal ac amlinellwyd y gwaith y byddai'n ymgymryd ag ef.

Y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Gweithredu hyd yma

Mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddau brif fater:

- sefydlu'r Coleg fel endid cyfreithiol ar wahân; a
- throsglwyddo gweithgareddau a staff y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg i'r Coleg.

Yn dilyn ei gyfarfod cyntaf ym mis Ebrill, sefydlodd y Bwrdd Grŵp Gwaith llai i wneud peth o'r gwaith mwy manwl. Cynhaliodd y Bwrdd ei ail gyfarfod ym mis Gorffennaf, pryd y bu'n ystyried cyfansoddiad drafft i'r Coleg.

Cyfansoddiad y Coleg

Y cyfansoddiad arfaethedig ar gyfer y Coleg yw cwmni cyfyngedig trwy warant heb gyfalaf cyfranddaliadau, a fydd hefyd yn ceisio cofrestriad fel elusen.

The constitution maintains the key principle of balanced interests between the higher education (HE) sector and other stakeholders, while ensuring sufficient ownership and input by the HE institutions which are responsible for delivering Welsh medium provision to students

Mae'r cyfansoddiad yn cadw'r egwyddor allweddol o sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau'r sector addysg uwch (AU) a buddiannau rhanddeiliaid eraill. Mae hefyd yn sicrhau perchenogaeth a chyfraniad digonol gan y sefydliadau AU sy'n gyfrifol am gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl sefydliadau AU yn aelodau o'r Coleg, ac y bydd nifer cyfartal o aelodau rhanddeiliadol o wahanol grwpiau, gan gynnwys myfyrwyr, staff a chyrff sydd â diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd Bwrdd Cyfarwyddwyr llai yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r Coleg, a bydd gan hwn hefyd nifer cyfartal o gyfarwyddwyr o sefydliadau AU ac o "gyfarwyddwyr eraill", ynghyd â chadeirydd annibynnol.

Cafodd y cyfansoddiad drafft ei ystyried gan y cyrff sy'n cynrychioli'r sector, Addysg Uwch Cymru (AUC) a Chadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC), a chan CCAUC mewn cyfarfodydd yn y digwyddiad Deialog Strategol a gynhaliwyd ym Mangor ar 2 Medi, lle y cafodd ei gefnogi ar y cyfan. Bydd yn awr yn cael ei ystyried yn ffurfiol gan gyrff llywodraethu'r sefydliadau AU yn ystod eu cyfarfodydd ym mis Hydref a dechrau mis Tachwedd. Yna gall y Coleg gael ei gorffori'n gyfreithiol.

Enw'r Coleg

Yr enw sy'n cael ei gynnig ar gyfer y Coleg yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yr ystyrir ei fod yn enw disgrifiadol byr a fydd yn ystyrlon i'r myfyrwyr presennol ac i ddarpar fyfyrwyr.

I ddod

Yn ystod yr ychydig o fisoedd nesaf, bydd cynnydd yn cael ei wneud gyda'r trefniadau ar gyfer penodi'r cadeirydd annibynnol a chyfarwyddwyr y Coleg, fel y gall y Coleg ddechrau ei waith ym mis Ebrill 2011.

Roedd y Bwrdd Gweithredu o'r farn bod angen sicrhau parhad a sefydlogrwydd ar gyfer staff y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg bresennol yn ystod y cyfnod pontio. Felly bydd swyddfa ganolog y Coleg yn aros yng Nghaerfyrddin, ac yn cadw'r un strwythur staffio a rheoli am y tro.